Sail statudol i gynghorau cymuned a thref gael eu hysbysu am, a chyflwyno sylwadau ar, geisiadau cynllunio

Fel y diffinir dan adran 8 Atodlen 1 (Awdurdodau Cynllunio Lleol: Dosbarthu Swyddogaethau) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

8(1)

Ble mae awdurdod cynllunio rhanbarth neu, mewn sir fetropolitan, awdurdod cynllunio lleol, wedi cael eu hysbysu'n ysgrifenedig gan gyngor plwyf neu gymuned sy'n gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal yr awdurdod hwnnw, bod y cyngor yn dymuno cael eu hysbysu:

(a) am bob cais am ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â thir yn y plwyf neu gymuned,

(b) am bob cais perthnasol am gymeradwyaeth i fater a gedwir dan ganiatâd cynllunio amlinellol o fewn ystyr adran 92, neu

(c) am unrhyw ddisgrifiad o geisiadau o'r fath,

os bydd yr awdurdod yn derbyn unrhyw gais o'r fath neu, fel y gellir digwydd, cais o unrhyw ddisgrifiad, byddant yn hysbysu'r cyngor am y cais yn ysgrifenedig, gan nodi natur y datblygiad, a lleoliad y tir, y mae'r cais yn ymwneud ag o.

8(2)

Dylai'r darpariaethau a allai gael eu cynnwys mewn gorchymyn datblygu gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i:

(a) awdurdod cynllunio lleol, sy'n penderfynu ar unrhyw gais y mae gan y cyngor plwyf neu gymuned hawl i gael eu hysbysu amdano, roi cyfle i'r cyngor hwnnw gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol am y modd y dylid penderfynu ar y cais, ac i ystyried unrhyw sylwadau o'r fath;

(b) awdurdod cynllunio rhanbarth neu, mewn sir fetropolitan, awdurdod cynllunio lleol, hysbysu'r cyngor hwnnw am delerau eu penderfyniad hwy, neu yn achos sir fetropolitan, penderfyniad yr awdurdod cynllunio sirol, ar unrhyw gais o'r fath, neu, ble bydd y cais yn cael ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, y dyddiad y cafodd ei gyfeirio a, phan fydd y cyngor yn cael eu hysbysu, telerau ei benderfyniad.

[Cyfieithwyd gan CCC - fersiwn Saesneg yn unig o'r Ddeddf a gyhoeddwyd]